



TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

Achos Rhif: TyG/21/03

CURON WYN DAVIES
(Apelydd)

v.

COMISIYNYDD Y GYMRAEG
(Atebydd)

PENDERFYNIAD

Aelodau'r Panel

Rhodri Williams CF (Aelod Cyfreithiol o'r Tribiwnlys)

Eifion Jones (Aelod o'r Tribiwnlys)

Glenda Jones (Aelod o'r Tribiwnlys).

Natur y Cais

Apêl gan yr Apelydd o dan adran 99(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur) yn erbyn penderfyniad yr Atebydd (dyddiedig 22 Hydref 2021), yn dilyn ymchwiliad o dan adran 71 ac Atodlen 10 y Mesur i mewn i weithgareddau Gweinidogion Cymru ynglŷn â Chynadleddau i'r Wasg yn ystod pandemig Covid-19. Dyfarnwyd gan yr Atebydd bod Gweinidogion Cymru ddim wedi methu cydymffurfio â Safonau 33 a 36 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Y Safonau), gan nad oedd y Safonau yn gymwys i'r Cynadleddau i'r Wasg oedd yn destun yr ymchwiliad.

Clywyd yr Apêl ar 28 Gorffennaf 2022.



WELSH LANGUAGE TRIBUNAL

Case No: WLT/21/03

CURON WYN DAVIES
(Appellant)

v.

WELSH LANGUAGE COMMISSIONER
(Respondent)

DECISION

Panel Members

Rhodri Williams QC (Legal Member of the Tribunal)

Eifion Jones (Tribunal Member)

Glenda Jones (Tribunal Member).

Nature of Application

An appeal by the Appellant under section 99(2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (the Measure) against the decision of the Respondent (dated 22 October 2021), following an investigation under section 71 and Schedule 10 of the Measure into the activities of Welsh Ministers regarding Press Conferences during the Covid-19 pandemic. The Respondent determined that the Welsh Ministers had not failed to comply with Standards 33 and 36 of the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 (The Standards), as the Standards did not apply to the Press Conferences under investigation.

The Appeal was heard on 28 July 2022.

Penderfyniad y Tribiwnlys

Am y rhesymau a nodir isod: -

Mae panel y Tribiwnlys yn gwrthod yr Apêl ac yn cadarnhau dyfarniad yr Atebydd o dan adran 100(1)(a) y Mesur.

Rhesymau

Cyflwyniad

1. Ar 7 Ionawr 2021, cyflwynodd yr Apelydd gŵyn i'r Atebydd yn honni bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn cynadleddau i'r wasg a gynhaliwyd gan Weinidogion Cymru i drafod diweddariadau yn ymwneud â'r pandemig Covid-19.
2. Ysgrifennodd swyddogion yr Atebydd at Weinidogion Cymru ar 19 Ionawr 2021 er mwyn cadarnhau ai nhw oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano. Derbyniodd Gweinidogion Cymru gyfrifoldeb am y mater mewn ateb a dderbyniwyd ar 4 Chwefror 2021.
3. Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â dwy safon berthnasol i'r gŵyn, yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("y Rheoliadau"), sef Safon 33 dan y pennawd "*Safonau ynghylch cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd*", a Safon 36 dan y pennawd "*Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff*".
4. Mae'r ddwy safon yn darparu fel a ganlyn:

Decision of the Tribunal

For the reasons set out below: -

The Tribunal panel rejects the Appeal and confirms the Respondent's determination under section 100(1)(a) of the Measure.

Reasons

Introduction

1. On 7 January 2021, the Appellant made a complaint to the Respondent claiming that the Welsh language was treated less favourably than the English language at press conferences held by Welsh Ministers to discuss updates relating to the Covid-19 pandemic.
2. The Respondent's officers wrote to the Welsh Ministers on 19 January 2021 to confirm whether they were responsible for the service complained about. The Welsh Ministers accepted responsibility for the matter in a response received on 4 February 2021.
3. The Welsh Ministers have a duty to comply with two standards relevant to the complaint, in the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 ("the Regulations"), namely Standard 33 under the heading "*Standards relating to meetings arranged by a body that are open to the public*", and Standard 36 under the heading "*Standards relating to public events organised or funded by a body*".
4. Both standards provide as follows:

Safon 33

“Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg –

(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.”

Diwrnod gosod: 30/03/2016;

a Safon 36

“Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).”

Diwrnod gosod: 30/03/2016

5. Ar y sail honno, penderfynodd yr Atebydd gynnal ymchwiliad dan adran 71 o'r Mesur. Rhoddodd hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r penderfyniad ar 8 Mawrth 2021 ac o'r cylch gorchwyl ar 26 Ebrill 2021.

Standard 33

“If you arrange a meeting that is open to the public, you must ensure that a simultaneous translation service from Welsh to English is available at the meeting, and you must orally inform those present in Welsh –

(a) that they are welcome to use the Welsh language, and

(b) that a simultaneous translation service is available.”

Imposition day: 30/03/2016;

and Standard 36

“If you organise a public event, or fund at least 50% of a public event, you must ensure that the Welsh language is treated no less favourably than the English language at the event (for example, in relation to services offered to persons attending the event, in relation to signs displayed at the event and in relation to audio announcements made at the event).”

Imposition day: 30/03/2016

5. On that basis, the Respondent decided to carry out an investigation under section 71 of the Measure. He gave notice to the Welsh Ministers of the decision on 8 March 2021 and of the terms of reference on 26 April 2021.

Penderfyniad yr Atebydd

6. Roedd adroddiad terfynol yr Atebydd, dyddiedig 22 Hydref 2021, yn nodi, ynglŷn â Safon 33, oedd yn ymwneud â chyfarfodydd “*sy’n agored i’r cyhoedd*”, nad oedd dehongliad pellach o’r Safon yn y Rheoliadau, ond bod Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau’r Gymraeg yn cyflwyno dehongliad yr Atebydd o Safon 33 a’i gofynion.
7. Yn ei ganfyddiadau, penderfynodd yr Atebydd fod safon 33 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod sy’n agored i’r cyhoedd ac i hysbysu’r rheiny sy’n bresennol bod y gwasanaeth ar gael a bod croeso iddynt ddefnyddio’r Gymraeg.
8. Er mwyn bod yn gyfarfod sy’n agored i’r cyhoedd at ddibenion safon 33, casglodd yr Atebydd fod rhaid i aelodau’r cyhoedd fod yn “bresennol” yn y cyfarfod, boed hynny drwy fod yno mewn person, neu yn rhithiol (megis drwy ddolen fideo uniongyrchol) os yw’n galluogi trafod neu ryngweithio ddwy ffordd a bod cyswllt uniongyrchol.
9. Casglodd nad oedd aelodau’r cyhoedd yn bresennol yn y cynadleddau i’r wasg oedd yn destun yr ymchwiliad, gan mai trwy ddarllediad yn unig yr oedd modd iddynt eu dilyn ac felly, nid oedd y cynadleddau hynny yn disgyn o fewn darpariaethau safon 33.

The Respondent’s decision

6. The Respondent’s final report, dated 22 October 2021 stated that, in relation to Standard 33, relating to meetings “*open to the public*”, there was no further interpretation of the Standard in the Regulations, but that a Code of Practice to the Welsh Language Standards Regulations introduced the Respondent’s interpretation of Standard 33 and its requirements.
7. In his findings, the Respondent decided that standard 33 requires Welsh Ministers to ensure that a simultaneous translation service is available at all meetings open to the public and to inform those present that the service is available and that they are welcome to use the Welsh language.
8. In order to be a meeting that is open to the public for the purposes of standard 33, the Respondent concluded that members of the public must be “present” at the meeting, whether that be in person, or virtually (such as by means of a direct video link) if it enables two-way discussion or interaction and direct contact.
9. He concluded that members of the public were not present at the press conferences that were the subject of the investigation, as they were only able to follow via broadcast and therefore those conferences did not fall within the provisions of standard 33.

10. Felly, dyfarnodd yr Atebydd nad oedd Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safon 33, ar y sail nad yw'r cynadleddau i'r wasg dan sylw yn ddarostyngedig i ofynion Safon 33.
 11. Ynglŷn â Safon 36, sydd yn ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus, roedd yr Atebydd o'r farn bod "*digwyddiad cyhoeddus*" yn golygu unrhyw ddigwyddiad sy'n agored i'r cyhoedd y mae corff yn ei drefnu neu'n ariannu o leiaf 50% ohono.
 12. Yn ei ganfyddiadau, penderfynodd yr Atebydd fod safon 36 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau, pan eu bod yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad hwnnw, gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad.
 13. Er mwyn bod yn "*ddigwyddiad cyhoeddus*" at ddibenion safon 36, casglodd yr Atebydd unwaith eto fod rhaid i aelodau'r cyhoedd fod yn "bresennol" yn y digwyddiad boed hynny drwy fod yno mewn person neu yn rhithiol (megis drwy ddolen fideo uniongyrchol) os yw'n galluogi trafod neu ryngweithio ddwy ffordd a bod cyswllt uniongyrchol.
 14. Casglodd yr Atebydd nad oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cynadleddau i'r wasg oedd yn destun yr ymchwiliad gan mai trwy ddarllediad yn unig yr oedd modd iddynt eu dilyn ac felly nad oedd y cynadleddau hynny
10. Therefore, the Respondent determined that Welsh Ministers had not failed to comply with Standard 33, on the basis that the press conferences in question are not subject to the requirements of Standard 33.
 11. In relation to Standard 36, which relates to public events, the Respondent considered that a "*public event*" means any event open to the public that a body organises or funds at least 50% of it.
 12. In his findings, the Respondent decided that standard 36 places a duty on Welsh Ministers to ensure that, when organising a public event, the Welsh language is treated no less favourably than the English language at that event, including in relation to services offered to persons attending the event.
 13. In order to be a "*public event*" for the purposes of standard 36, the Respondent concluded that members of the public must once again be "present" at the event, whether that be in person, or virtually (such as by means of a direct video link) if it enables two-way discussion or interaction and direct contact.
 14. The Respondent concluded that members of the public were not present at the press conferences that were the subject of the investigation, as they were only able to follow via broadcast and therefore those conferences did not

- yn disgyn o fewn darpariaethau safon 36.
15. Felly, unwaith eto, gan nad oedd Safon 36 yn berthnasol i'r cynadleddau i'r wasg dan sylw, ni allai ddyfarnu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r Safon ar y sail nad oedd y cynadleddau i'r wasg yn ddarostyngedig i ofynion Safon 36.
16. Serch hyn, mewn ystyriaethau pellach, nododd yr Atebydd nad oedd unrhyw safon yn y Rheoliadau sydd yn ymwneud â chynadleddau i'r wasg (yn hytrach na datganiad i'r wasg oedd yn destun Safon 46) ac felly yn absenoldeb safon berthnasol, ni ellir dyfarnu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth gynnal eu cynadleddau i'r wasg Covid-19.
17. Yn ychwanegol at y mater hwn, noddodd yr Atebydd na ellir anwybyddu'r ffaith mai drwy ddarllediad yn unig yr oedd yn bosibl i'r Apelydd, a'r cyhoedd, ddilyn y gynhadledd a bod adran 67 o'r Mesur yn nodi nad yw'n ofynnol i berson gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu. Roedd hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â chymhwysedd y safonau yn gyffredinol mewn achos tebyg.
18. Yr oedd yr Atebydd o'r farn nad oedd y modd yr oedd y cynadleddau wedi'u cynnal yn unol ag ysbryd y Mesur, gan nad oedd amheuaeth ganddo bod y Gymraeg yn sicr wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ynglŷn â defnydd o'r Gymraeg a bod defnyddwyr y
- fall within the provisions of standard 36.
15. Therefore, again, as Standard 36 was not relevant to the press conferences in question, he could not determine that Welsh Ministers had failed to comply with the Standard on the basis that the press conferences were not subject to the requirements of Standard 36.
16. However, in further considerations, the Respondent noted that there was no standard in the Regulations relating to press conferences (rather than a press release which was the subject of Standard 46) and therefore in the absence of a relevant standard, it cannot be determined that Welsh Ministers failed to comply with the Welsh language standards when conducting their Covid-19 press conferences.
17. In addition to this matter, the Respondent noted that the fact could not be disregarded that it was only possible for the Appellant, and the public, to follow the conference via the broadcast, and that section 67 of the Measure states that it does not require a person to comply with a standard if, and to the extent that, the standard relates to broadcasting. This raised a question about the overall applicability of the standards in a similar case.
18. The Respondent was of the opinion that the way in which the conferences were conducted was not in accordance with the spirit of the Measure, as he had no doubt that the Welsh language had been treated less favourably than the English language in respect of the use

Gymraeg wedi profi anfantais drwy beidio â derbyn gwybodaeth yn unol â'u dewis iaith.

19. Drwy beidio â sicrhau bod modd cynnig cyfieithiad Iaith Arwyddo Prydeinig o'r cwestiynau ac atebion cyfrwng Cymraeg, gan mai crynodeb yn unig a ddarparwyd yn Saesneg gafodd ei gyfieithu, roedd yn bosibl bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

20. Yr oedd yr achos hwn, ym marn yr Atebydd, wedi dwyn sylw at fylchau a gwendidau yn y safonau, yn ogystal â'r Mesur ei hunan, yn sgil adran 67, i ddal sefyllfaoedd penodol o dan ddyletswydd. Felly, fe roddodd yr Atebydd gyngor, dan adran 76 o'r Mesur, i Weinidogion Cymru i ystyried sut y gellir gwella'r modd y mae hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cynadleddau i'r wasg yn y dyfodol.

Achos yr Apelydd.

21. Ar ddechrau'r gwrandawriad, eglurodd yr Apelydd ei fod yn dwyn yr apêl ynglŷn â Safon 36 yn unig.

22. Nid oedd yr Apelydd wedi cyflwyno sail ei apêl yn ei Hysbysiad Cais. Yr oedd hwn yn beirniadu yn unig fethiant yr Atebydd i ystyried diben y digwyddiad, a'i benderfyniad afresymol ac anghymesur nad digwyddiad cyhoeddus oedd y gynhadledd i'r wasg, a methiant yr Atebydd i ystyried defnydd Llywodraeth Cymru o Iaith Arwyddo

of the Welsh language and that Welsh language users had experienced a disadvantage by not receiving information in their preferred language.

19. By failing to ensure that it was possible to offer a British Sign Language (BSL) translation of the Welsh-medium questions and answers, as only a summary provided in English was translated, it was possible that the Welsh language had been treated less favourably than the English language.

20. This case had, in the opinion of the Respondent, highlighted gaps and weaknesses in the standards, as well as the Measure itself, as a result of section 67, to make certain situations duty-bound. Therefore, the Respondent gave advice, under section 76 of the Measure, for the Welsh Ministers to consider how the promotion and facilitation of the use of the Welsh language can be improved at their future press conferences.

The Appellant's Case.

21. At the start of the hearing, the Appellant explained that he was bringing the appeal in relation to Standard 36 only.

22. The Appellant had not lodged the grounds of his appeal in his Application Notice. This only criticised the Respondent's failure to consider the purpose of the event, and his unreasonable and disproportionate decision that the press conference was not a public event, and the Respondent's failure to consider the Welsh Government's use of BSL, and

Prydeinig, a chyfeiriodd at ddyfarniad yr Uchel Lys yn *R(Rowley)-v-Minister for the Cabinet Office [2021] EWHC 2108 (Admin)* ar gyfer digwyddiad tebyg.

23. Serch hynny, yn ei ymateb i Ddatganiad Achos yr Atebydd, ac yn ei gyflwyniadau llafar gerbron y Tribiwnlys, bwriodd yr Apelydd amheuaeth ar ddehongliad gan yr Atebydd o gymhwysedd Safon 36, ar angen i'r cyhoedd allu rhyngweithio er mwyn bod yn bresennol.
24. Honnodd yr Apelydd fod yr Atebydd wedi methu ag ystyried digwyddiadau cyhoeddus megis gorymdaith, cyngherddau a gemau chwaraeon, ble yn aml yr unig adborth oedd yn bosib oedd gwneud sŵn wrth gymeradwyo.
25. Esboniodd fod y ffrwd byw ar Facebook yn arddangos bysedd bawd a chalonnau yn llifo ar draws y fideo ar amserau allweddol. Yn ei farn, gellir ystyried lleoliad y digwyddiad fel Cymru gyfan, gan fod y rheolau wedi eu gosod gan y Gweinidogion ar gyfer Cymru gyfan. Roedd yr ymateb i'r pandemig ei hun, felly, yn fath o ddigwyddiad cyhoeddus.
26. Cyfeiriodd yr Atebydd at Iaith Arwyddo Prydeinig a dywedodd fod yr Atebydd wedi methu ag ystyried beth oedd diben yr arwyddo, oedd yn bodoli at ddefnydd y cyhoedd gan mai digwyddiad cyhoeddus y doedd.
27. Ynglŷn ag eithriad adran 67 y Mesur, honnodd yr Apelydd fod yr Atebydd wedi methu ag ystyried cymal 67(2)(b), nad darlledu oedd diben y gweithgaredd dan sylw, ac nid

referred to the High Court's ruling in *R(Rowley)-v-Minister for the Cabinet Office [2021] EWHC 2108 (Admin)* for a similar event.

23. However, in his response to the Respondent's Statement of Case, and in his oral submissions to the Tribunal, the Appellant questioned the Respondent's interpretation of the applicability of Standard 36, on the need for the public to be able to interact in order to be present.
24. The Appellant claimed that the Respondent had failed to consider public events such as processions, concerts and sports matches, where often, the only way to provide feedback was to make noise when applauding.
25. He explained that the live stream on Facebook showed thumbs up and hearts flowing across the video at key times. In his opinion, the location of the event may be regarded as the whole of Wales, as the rules had been set by Ministers for the whole of Wales. The response to the pandemic itself was therefore a form of public event.
26. The Respondent referred to BSL and said that the Respondent had failed to consider the purpose of the signing, which was for the public as it was a public event.
27. In relation to the exception of section 67 of the Measure, the Appellant claimed that the Respondent had failed to consider clause 67(2)(b), that the purpose of the activity in question was

gwasanaeth na rhaglen deledu oedd datganiadau'r Gweinidogion. Roedd y darlledwyr S4C a'r BBC yn creu rhaglenni ei hun o amgylch y ffrwd byw a ddarparwyd gan y Gweinidogion.

28. Yr oedd rhaid cofio nad oedd ffrwd byw yn cwmpo o dan y Ddeddf Darlledu, ac mai diben adran 67 y Mesur yw eithrio gwasanaeth darlledu. Nid oedd y Gweinidogion yn gyfrifol am *“comisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, cynnwys ar-lein”*.

29. Pe bai'r Tribiwnlys o'r farn bod eithriad adran 67 yn gymwys, yna byddai rhaid ystyried diddymu holl safonau a osodwyd ar gyfer gwefannau fel rhai annilys.

30. Yn ogystal â hyn, dadleuodd yr Apelydd nad oedd yr Atebydd wedi nodi Adran 67 yn ei benderfyniad gwreiddiol, felly ymddangosai fod yr Atebydd heb ystyried yr elfen hon yn wreiddiol. Mater i'r Atebydd wrth ail ystyried y mater mewn penderfyniad newydd (ar ôl diddymu'r penderfyniad gwreiddiol) byddai perthnasedd Adran 67.

Achos yr Atebydd

31. Roedd yr Atebydd wedi cyflwyno ei ddadl yn fanwl yn ei Ddatganiad Achos ac roedd sylwadau llafar yr Atebydd yn unol â'r datganiad achos hwnnw.

not a broadcast and that the Minister's statements were not television programmes or services. The broadcasters, S4C and BBC, made programmes themselves around the live stream provided by Ministers.

28. It had to be borne in mind that live streaming did not fall under the Broadcasting Act, and that the purpose of section 67 of the Measure was to exclude broadcasting. Ministers were not responsible for the *“commissioning, production, scheduling, transmission or distribution of programmes (including advertisements, subtitles, continuity announcements and teletext), access services, interactivity, online content”*.

29. Should the Tribunal be of the opinion that the section 67 exemption applied, then all standards imposed for websites would have to be regarded as invalid.

30. In addition, the Appellant argued that the Respondent had not set out Section 67 in his original decision, so it appeared that the Respondent had not considered this element originally. The relevance of Section 67 would be a matter for the Respondent to reconsider in a new decision (following the revocation of the original decision).

The Respondent's Case

31. The Respondent had presented his case in detail in his Statement of Case and the Respondent's oral representations were in accordance with that statement of case.

32. Ail adroddodd na cheir unrhyw ddehongliad pellach o safon 36 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Yr oedd Safon 36 yn gosod dyletswydd os yw corff yn trefnu digwyddiad cyhoeddus.
33. Wrth ystyried a oedd y cynadleddau yn ddarostyngedig i ofynion Safon 36, yr oedd yn ofynnol ar yr Atebydd ystyried a oedd y cynadleddau yn "*ddigwyddiadau cyhoeddus*".
34. Er mwyn bodloni'r diffiniad o "*ddigwyddiad cyhoeddus*", yr oedd yr Atebydd o'r farn bod rhaid i aelodau'r cyhoedd fod yn "bresennol" yn y digwyddiad. Yr oedd y dehongliad yma o Safon 36 yn cael ei gefnogi gan eiriad y safon oedd yn esbonio'i bwriad gan gynnig enghreifftiau o gyd-destunau pan na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
35. Aeth yr Atebydd ati i ystyried a oedd yr Apelydd yn bresennol yn y digwyddiad. Wrth gwrs, yr oedd y cyhoedd yn bresennol os oeddent mewn digwyddiad mewn person. Yr oedd yr Atebydd hefyd yn derbyn bod modd cynnal digwyddiadau cyhoeddus rhithiol. Gallai'r cyhoedd fod yn bresennol yn rhithiol (megis drwy ddolen fideo uniongyrchol).
36. Yr hyn oedd yn bwysig, ym marn yr Atebydd, oedd bod y cyhoedd yn gallu trafod neu ryngweithio ddwy ffordd, hyd yn oed os nad oedd hynny yn digwydd. Os nad oedd cyswllt uniongyrchol rhwng y cyhoedd a'r rhai sydd yn bresennol ac yn cynnal y gynhadledd, yr oedd yn amhosib i'r
32. The Respondent reiterated that there was no further interpretation of standard 36 in the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015. Standard 36 imposes a duty if a body arranges a public event.
33. In considering whether the conferences were subject to the requirements of Standard 36, the Respondent was required to consider whether the conferences were "*public events*".
34. In order to meet the definition of a "*public event*", the Respondent was of the opinion that members of the public must be "present" at the event. This interpretation of Standard 36 was supported by the wording of the standard which explained its intention, offering examples of contexts where the Welsh language should not be treated less favourably than the English language.
35. The Respondent considered whether the Appellant was present at the event. Of course, the public were present if they attended an event in person. The Respondent also accepted that it was possible to hold public events virtually. The public could attend virtually (such as via a direct video link).
36. What was important, in the Respondent's view, was that the public were able to discuss or interact both ways, even if that did not happen. If there was no direct contact between the public and those in attendance and holding the conference, it was impossible for the Respondent to

Atebydd gasglu bod y cyhoedd yn “bresennol”.

37. Er fod cyfleuster i gyflwyno sylwadau testun yn ystod y darllediad ar-lein, casglodd yr Atebydd nad oedd hyn yn gyfystyr â pherson oedd yn bod yn bresennol yn y gynhadledd, a hynny gan nad oedd rhyngweithio uniongyrchol yn digwydd rhyngddynt â'r sawl oedd yn bresennol ac yn cynnal y gynhadledd.

38. Yn ôl yr Atebydd, er bod modd i'r Apelydd a'r cyhoedd arsylwi'r gynhadledd drwy'r darllediad ar y teledu a thrwy recordiad ar-lein, nid oedd y cyhoedd yn bresennol yn y gynhadledd i'r graddau y gallent rhyngweithio gyda'r rhai oedd yn trefnu, neu eraill oedd yn bresennol yn yr un digwyddiad. Ym marn yr Atebydd, dim ond y rheiny oedd yn gallu cael cyswllt uniongyrchol â'r rhai oedd yn cynnal y digwyddiad oedd yn bresennol yn y digwyddiad, sef gwahoddedigion penodol, megis aelodau o'r wasg.

39. Roedd yr Atebydd felly o'r farn nad oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cynadleddau gan mai trwy ddarllediad yn unig yr oedd modd iddynt eu dilyn. Ar y sail yma, byddai wedi bod yn afresymol i'r Atebydd gasglu fod y cynadleddau yn “*ddigwyddiad cyhoeddus*” ac yn disgyn o fewn darpariaethau safon 36.

40. Roedd cais yr Apelydd yn cyfeirio at fethiant yr Atebydd i ystyried defnydd Llywodraeth Cymru o Iaith Arwyddo Prydain. Yr oedd yr Atebydd yn anghytuno gyda'r honiad hwn a

conclude that the public was “present”.

37. Although there was a facility to submit text comments during the online broadcast, the Respondent concluded that this was not the equivalent of a person attending the conference, as there was no direct interaction between them and those in attendance and holding the conference.

38. According to the Respondent, although the Appellant and the public were able to observe the conference via the television broadcast and an online recording, the public were not present at the conference to the extent that they could interact with the organisers, or others present at the same event. In the Respondent's view, only those who were able to have direct contact with those holding the event attended the event, namely specific invitees, such as members of the press.

39. The Respondent was therefore of the opinion that members of the public were not present at the conferences, as they were only able to follow them via the broadcast. On this basis, it would have been unreasonable for the Respondent to conclude that the conferences were “*public events*” and fell within the provisions of standard 36.

40. The Appellant's application referred to the Respondent's failure to consider the Welsh Government's use of BSL. The Respondent disagreed with this

chyfeiriodd at ei adroddiad gwreiddiol lle casglwyd:

“Drwy beidio â sicrhau bod modd cynnig cyfieithiad BSL o’r cwestiynau ac atebion cyfrwng Cymraeg mae’n debyg bod peth o’r wybodaeth a gyflwynwyd yn Gymraeg yn debygol o beidio â chael ei gyfieithu gan mai crynodeb yn unig a ddarparwyd yn Saesneg. Mae’n bosib felly bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Serch hynny, yn sgil diffyg safon berthnasol ni allaf eto ddyfarnu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau’r Gymraeg.”

41. Yr oedd yr Atebydd yn glir bod posibilrwydd bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn y cyswllt hwn ond nid oedd modd dod i ddyfarniad ar hynny gan nad oedd o’r farn bod dyletswydd i gydymffurfio â’r safon berthnasol. Eglurwyd hyn wrth yr Apelydd yn y llythyr oedd yn cyflwyno’r adroddiad.

42. Yr oedd yr Apelydd hefyd yn cyfeirio at ddyfarniad R (*on the application of Katherine Rowley*)-v-*Minister for the Cabinet Office*. Ym marn yr Atebydd, achos adolygiad barnwrol oedd yr achos yma ynghylch darpariaeth Llywodraeth y DU o gyfieithu-ar-y-pryd Iaith Arwyddo Prydeinig yn ystod cynadleddau byw Covid-19. Darganfyddodd yr Uchel Lys fod y Llywodraeth wedi methu â chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac wedi methu ag ystyried

claim and referred to his original report where it was concluded:

“By failing to ensure that it is possible to offer a BSL translation of the Welsh-medium questions and answers, it is likely that some of the information presented in Welsh was probably not translated as only a summary was provided in English. Therefore, it is possible that the Welsh language has been treated less favourably than the English language. However, due to the lack of a relevant standard, I am not yet able to determine that Welsh Ministers have failed to comply with the Welsh language standards.”

41. The Respondent was clear that there was a possibility that the Welsh language had been treated less favourably than the English language in this respect but it was not possible to determine this, as he was not of the opinion that there was a duty to comply with the relevant standard. This was explained to the Appellant in the letter presenting the report.

42. The Appellant also referred to judgement R (*on the application of Katherine Rowley*)-v-*Minister for the Cabinet Office*. In the opinion of the Respondent, this case was judicial review regarding the UK Government’s provision of simultaneous translation of BSL during the live Covid-19 conferences. The High Court found that the Government had failed to comply with the Equality Act 2010 and had failed to take account of the needs of

anghenion defnyddwyr byddar Iaith Arwyddo Prydeinig.

43. Yr oedd yn bwysig nodi bod Deddf Cydraddoldeb 2010 tu hwnt i bwerau'r Atebydd o dan y Mesur, ac felly nid oedd yr achos yma yn berthnasol i hawliau iaith dan y Mesur. O ganlyniad, er bod ystyriaeth wedi'i roi gan yr Atebydd i'r achos, nid oedd o'r farn ei fod yn berthnasol i'r dyfarniad.
44. Ynglŷn ag adran 67 o'r Mesur, yr oedd yn darparu nad yw'n ofynnol i berson gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu.
45. Felly, os oedd y Tribiwnlys yn anghytuno â dehongliad yr Atebydd am Safon 36 ac yn casglu bod y gynhadledd dan sylw yn ddigwyddiad cyhoeddus, byddai'n rhaid ystyried a yw adran 67 yn berthnasol, ac os nad oedd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â Safon 36 i'r graddau yr oedd y gynhadledd yn ymwneud â darlledu.
46. Ym marn yr Atebydd, dim ond trwy ddarllediad oedd modd i'r Apelydd, a'r cyhoedd, ddilyn y gynhadledd o dan sylw. Mae adran 67(2) yn nodi mai "ystyr "darlledu" yw comisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddiwifr eraill."

deaf BSL users.

43. It was important to note that the Equality Act 2010 was beyond the powers of the Respondent under the Measure, and therefore this case was not relevant to language rights under the Measure. As a result, although the Respondent had considered the case, he was not of the opinion that it was relevant to the determination.
44. Section 67 of the Measure provided that a person is not required to comply with a standard if, and to the extent that, the standard relates to broadcasting.
45. Therefore, if the Tribunal disagreed with the Respondent's interpretation of Standard 36 and concluded that the conference in question was a public event, it would be necessary to consider whether section 67 applied, and whether the Welsh Ministers were not required to comply with Standard 36 insofar as the conference related to broadcasting.
46. In the opinion of the Respondent, the Appellant and the public were only able to follow the conference in question via broadcast. Section 67(2) states that "“broadcasting” means the commissioning, production, scheduling, transmission or distribution of programmes (including advertisements, subtitles, continuity announcements and teletext), access services, interactivity, online content and other output of a similar nature for television, radio, the internet or other online or wireless platforms.”"

47. Cafodd y gynhadledd ei thrawsyrru ar-lein ar gyfer y teledu a'r rhyngwrwyd ac felly yn bodloni'r diffiniad o "ddarlledu". Fel yr oedd yr Atebydd wedi nodi yn barod, er bod rhyngweithio rhwng y wasg wahoddedig a'r Gweinidogion, i'r cyhoedd roedd y gynhadledd yn rhaglen neu'n gynnwys ar-lein ar gyfer y teledu a llwyfannau ar-lein yn unig. Roedd felly yn bodloni'r diffiniad o "ddarlledu".

48. Byddai dyfarniad yr Atebydd nad oedd Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safon 36 felly yn parhau'n ddilys, hyd yn oed os oedd e wedi cam-ddehongli cymhwyster Safon 36.

Penderfyniad y Tribiwnlys:

Dehongliad Safon 36

49. Rôl y Tribiwnlys ar apel o dan adran 99(2) Mesur y Gymraeg 2011 yw ystyried y mater o'r newydd ar y dystiolaeth sydd ger ei fron, a gwneud ei benderfyniad ei hun ynghylch a oedd dyfarniad yr Atebydd yn gywir.

50. Yn yr achos hwn, y mae'r Apelydd yn honni bod yr Atebydd wedi camddehongli a cham-gymhwyso cwmpas Safon 36.

51. Ym marn y Tribiwnlys, y mae'r Atebydd yn gywir bod dim dehongliad pellach o Safon 36 (sydd yn disgrifio "*Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan*

47. The conference was transmitted online for television and the internet and therefore meets the definition of "broadcasting". As the Respondent had already noted, although there was interaction between the invited press and the Ministers, the conference was a programme or online content for television and online platforms only. It therefore met the definition of "broadcasting".

48. The determination of the Respondent that the Welsh Ministers had not failed to comply with Standard 36 would therefore remain valid, even if he had misinterpreted the applicability of Standard 36.

Decision of the Tribunal:

Interpretation of Standard 36

49. The role of the Tribunal in an appeal under section 99(2) of the Welsh Language Measure 2011 is to consider the matter anew, based on the evidence submitted, and to make its own decision as to whether the Respondent's determination was correct.

50. In this case, the Appellant claims that the Respondent had misinterpreted and misapplied the scope of Standard 36.

51. In the opinion of the Tribunal, the Respondent is correct that no further interpretation of Standard 36 (which describes "*Standards relating to public events organised or funded by a body*")

gorff”) i’w ganfod yn y Rheoliadau eu hunain.

52. Serch hynny, y mae’r Atebydd ei hun wedi cyfeirio at y Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau’r Gymraeg, (“y Cod Ymarfer”) sydd yn cyflwyno dehongliad o Safon 33 ac er bod Safon 33 yn ymwneud â chyfarfodydd “*sy’n agored i’r cyhoedd*” yn hytrach na “*digwyddiad cyhoeddus*” (yn Safon 36), y mae’r Tribiwnlys o’r farn bod “*digwyddiad cyhoeddus*” yn gyfystyr â digwyddiad sydd yn agored i’r cyhoedd. Y mae hyn yn ei gefnogi hefyd gan baragraff 4.5.16 o’r Cod Ymarfer.

53. Y mae’r Cod Ymarfer hefyd yn darparu ym mharagraff 4.4.21:

“Mae’r safonau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y mae corff yn eu trefnu sy’n agored i’r cyhoedd yn gyffredinol eu mynychu. Gall hynny gynnwys cyfarfodydd sy’n agored i’r cyhoedd fynychu i arsylwi yn unig neu’r rhai lle mae modd iddynt gyfrannu.”

54. Gan i’r Atebydd yn gyfaddef, yn ei Ddatganiad Achos ac yn ei gyflwyniadau gerbron y Tribiwnlys, bod modd cynnal digwyddiadau cyhoeddus rhithiol ac bod y cyhoedd yn gallu bod yn bresennol yn rhithiol (megis drwy ddolen fideo uniongyrchol), byddai’n bosibl, felly, dehongli’r Safon mewn modd sydd yn cynnwys digwyddiadau sy’n agored i’r cyhoedd drwy ganiatáu presenoldeb rhithiol, hyd yn oed lle nad oes modd i’r rheini sy’n gysylltu drwy ddolen fideo gyfrannu at y digwyddiad a’u bod nhw’n arsylwi’n unig.

is to be found in the Regulations themselves.

52. However, the Respondent himself has referred to the Code of Practice for the Welsh Language Standards Regulations, (“the Code of Practice”) which introduces an interpretation of Standard 33, and although Standard 33 relates to meetings “*open to the public*” rather than a “*public event*” (in Standard 36), the Tribunal is of the opinion that a “*public event*” constitutes an event open to the public. It is also supported by paragraph 4.5.16 of the Code of Practice.

53. The Code of Practice also provides at paragraph 4.4.21:

“These standards apply to meetings arranged by a body that are open to the general public. This may include meetings open to the public to observe only or those where they can contribute.”

54. As the Respondent admitted, in his Statement of Case and in his submissions to the Tribunal, that virtual public events can be held and the public can attend virtually (such as via a direct video link), it would therefore be possible to interpret the Standard in a way that includes events that are open to the public by allowing a virtual presence, even where it is not possible for those connected via a video link to contribute to the event and for them to attend as observers only.

55. Serch hynny, ym marn y Tribiwnlys, nid hwnnw yw'r dehongliad cywir o Safon 36. Er mwyn bod yn bresennol mewn digwyddiad, mae'n rhaid i'r cyhoedd, neu i aelodau o'r cyhoedd, naill ai fod yn gorfforol bresennol yn y fangre lle cynhelir y digwyddiad, neu, o leiaf, fod yn bresennol yn rhithiol ac yn gallu cyfrannu at y digwyddiad, boed trwy annerch y rheini sydd yn gorfforol bresennol gyda chymorth meicroffon, neu mewn modd cyfatebol arall. Nid yw'n cynnwys, felly, aelodau o'r cyhoedd sydd ddim ond yn gallu arsylwi ar y digwyddiad yn rhithiol, ac sydd mewn sefyllfa fwy tebyg i wylwyr teledu neu i wrandawyr radio.

56. Y mae'r Uchel Lys wedi cadarnhau (mewn achos oedd yn ymwneud â thorri hawlfraint) mai nodweddion y gynulleidfa sydd yn bwysig i'r cwestiwn ai yn gyhoeddus y mae digwyddiad: "*It is established that in deciding whether a performance is "in public" the character of the audience is the decisive factor*"; gweler *Performing Right Society Ltd-v-Harlequin Record Shops Ltd [1979] 2 AER 828* per Browne-Wilkinson J.

57. Y mae'r Tribiwnlys o'r farn felly bod yr Atebydd yn gywir pan ddywedodd mai'r hyn sydd yn bwysig yw bod y cyhoedd yn gallu trafod neu ryngweithio ddwy ffordd drwy gyswllt uniongyrchol rhwng y cyhoedd a'r rhai sydd yn bresennol ac yn cynnal y digwyddiad, a phan gasglodd, er bod cyfleuster i gyflwyno sylwadau testun yn ystod y darllediad ar-lein yn yr achos hwn, nad oedd hyn yn gyfystyr â

55. However, in the opinion of the Tribunal, that is not the correct interpretation of Standard 36. In order to attend an event, the public, or members of the public, must either be physically present at the premises where the event is being held, or at least be present virtually and be able to contribute to the event, whether by addressing those physically present with the assistance of a microphone, or otherwise. Therefore, it does not include members of the public who are only able to observe the event virtually, and who are in a more similar position to television viewers or radio listeners.

56. The High Court has confirmed (in a case involving copyright infringement) that the character of the audience determines whether an event is public: "*It is established that in deciding whether a performance is "in public" the character of the audience is the decisive factor*"; see *Performing Right Society Ltd-v-Harlequin Record Shops Ltd [1979] 2 AER 828* per Browne-Wilkinson J.

57. The Tribunal therefore considers that the Respondent was correct when he said that what is important is that the public can discuss or interact both ways through direct contact between the public and those in attendance and hosting the event, and when he concluded that although there was a facility to comment by text during the online broadcast in this case, this did not constitute a person being

pherson sydd yn bod yn bresennol yn y digwyddiad.

58. Yn yr achos presennol, gofynnwyd i'r Atebydd onid oedd gwrandawriad y Tribiwnlys, oedd yn cael ei gynnal yn rhithiol gyda'r partïon yn unig yn cael annerch y Tribiwnlys a chydag aelodau'r cyhoedd yn cael arsylwi'n unig, yn ddigwyddiad cyhoeddus, yn sgil rheol 38 Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015.

59. Atebodd yr Atebydd mai'r gwahaniaeth rhwng gwrandawriad tribiwnlys a chynhadledd i'r wasg oedd bod yr hawl i'r cyhoedd ymuno â'r gwrandawriad yn adlewyrchu'r hawl i fynychu'n gorfforol, pe bai'r gwrandawriad wedi bod mewn person, ond bod hyn ddim yn wir am gynhadledd i'r wasg.

60. Y mae hyn yn cefnogi'r casgliad bod cynhadledd i'r wasg, lle mai newyddiadurwyr yn unig sydd yn cael eu gwahodd i gyfrannu ac i holi'r gweinidogion, ond lle mae'r cyhoedd yn cael arsylwi yn unig, ddim yn "ddigwyddiad cyhoeddus" at bwrpas Safon 36.

61. Y mae'r Tribiwnlys o'r farn hefyd bod yr Atebydd yn gywir bod yr achos Uchel Lys *R(Rowley)-v-Minister for the Cabinet Office* ddim yn berthnasol i'r achos hwn. Delio â dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoleb 2010 oedd yr achos hwnnw ac nid Safonau'r Iaith Gymraeg o dan Mesur y Gymraeg 2011.

present at the event.

58. In the current case, the Respondent was asked wasn't the Tribunal hearing - which was held virtually with only the parties being able to address the Tribunal and members of the public only observing - a public event, as a result of rule 38 of the Welsh Language Tribunal Rules 2015.

59. The Respondent replied that the difference between a tribunal hearing and a press conference was that the right for the public to join the hearing reflected the right to attend physically, had the hearing been in person, but this was not true of press conferences.

60. This supports the conclusion that a press conference, where only journalists are invited to contribute and question ministers, but where the public are allowed to observe only, is not a "public event" for the purpose of Standard 36.

61. The Tribunal is also of the opinion that the Respondent is correct that the High Court case *R(Rowley)-v-Minister for the Cabinet Office* is not relevant to this case. That case was dealing with duties under the Equality Act 2010 and not Welsh Language Standards under the Welsh Language Measure 2011.

62. Nid yw'r Tribiwnlys yn mynegi barn am unrhyw honiad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'u dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoleb 2010 ynglŷn â chyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Iaith Arwyddo Prydeinig yn ystod y cynadleddau i'r wasg dan sylw.

Dehongliad adran 67

63. Gan fod y Tribiwnlys yn cytuno gyda dehongliad yr Atebydd o gymhwysedd Safon 36, nid oes rhaid ystyried dehongliad yr eithriad yn adran 67 o'r Mesur.

64. Serch hynny, mae'r Tribiwnlys o'r farn bod ystyr "*darlledu*", at bwrpas adran 67, i'w ganfod yn isadran 67(2) sydd yn darparu:

"(2) Yn yr adran hon –

(a) Ystyr "darlledu" yw comisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddiwifr eraill;

(b) Ond nid yw cyfeiriadu at ddarlledu yn cynnwys unrhyw weithgaredd a gyflawnir mewn cysylltiad â darlledu (onid darlledu yw'r

62. The Tribunal does not express an opinion on any claim that Welsh Ministers failed to comply with their duties under the Equality Act 2010 regarding simultaneous translation from Welsh to BSL during the press conferences in question.

Interpretation of section 67

63. As the Tribunal agrees with the Respondent's interpretation of the applicability of Standard 36, it is not necessary to consider the interpretation of the exception in section 67 of the Measure.

64. However, the Tribunal considers that the meaning of "*broadcasting*", for the purposes of section 67, is found in subsection 67(2) which provides:

"(2) In this section –

(a) "broadcasting" means the commissioning, production, scheduling, transmission or distribution of programmes (including advertisements, subtitles, continuity announcements and teletext), access services, interactivity, online content and other output of a similar nature for television, radio, the internet or other online or wireless platforms;

(b) but references to broadcasting do not include any activity that is carried out in connection

darlledu yw'r gweithgaredd ei hun)."

with broadcasting (unless the activity is itself broadcasting)."

65. Mae'r ddarpariaeth sydd yn adran 67(2)(b) yn ei olygu bod yr eithriad ddim yn gymwys i ddyletswydd i berson gydymffurfio â safon iaith, megis Safon 36 i beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn digwyddiad (er enghraifft drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Iaith Arwyddo Prydain) oherwydd y ffaith bod y digwyddiad yn cael ei ddarlledu mewn modd sydd ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngwrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddiwifr eraill.

65. The provision in section 67(2)(b) means that the exception does not apply to a duty for a person to comply with a language standard, such as Standard 36 to treat the Welsh language no less favourably than the English language at an event (for example by providing a simultaneous translation service from Welsh to BSL because of the fact that the event is broadcast in a way that is for television, radio, the internet or other online or wireless platforms.

66. I'r graddau hyn, felly, y mae'r Apelydd yn gywir pan ddywedodd pe bai'r eithriad yn adran 67 yn gymwys, yna byddai rhaid diddymu holl safonau a osodwyd ar gyfer gwefannau fel rhai annilys ar y sail eu bod nhw'n eu darlledu'n fyw.

66. To this extent, therefore, the Appellant is correct when he said that if the exception in section 67 applied, then all standards set for websites would have to be repealed as invalid on the basis that they broadcast them live.

67. Nid yw'r Tribiwnlys felly yn derbyn dadl yr Atebydd bod adran 67 yn berthnasol i'r cwyn am y gynhadledd i'r wasg gan Weinidogion Cymru. Doedd y ffaith bod y gynhadledd yn cael ei thrawsyrru ar lein ar gyfer y teledu a'r rhyngwrwyd ddim yn bodloni'r diffiniad o "ddarlledu" at bwrpas yr eithriad yn adran 67.

67. The Tribunal therefore does not accept the Respondent's argument that section 67 is relevant to the complaint about the Welsh Ministers press conference. The fact that the conference was being transmitted online for television and the internet did not meet the definition of "broadcasting" for the purpose of the exception in section 67.

Ystyriaethau pellach

Further considerations

68. Nid oes rhaid i'r Tribiwnlys ystyried ychwaith y pwyntiau ychwanegol y mae'r Atebydd wedi'u gwneud yn ei benderfyniad gwreiddiol.

68. The Tribunal does not have to consider the additional points the Respondent has made in his original decision either.

69. Serch hynny, i'r graddau y mae'r Atebydd yn casglu nad oes amheuaeth bod y Gymraeg yn sicr wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng nghynadledau i'r wasg a gynhelir gan Weinidogion Cymru, a bod defnyddwyr y Gymraeg wedi profi anfantais drwy beidio â derbyn y wybodaeth yma yn unol â'u dewis iaith, y mae'r Tribiwnlys yn cytuno bod yr achos hwn yn dwyn sylw at fylchau a gwendidau yn y safonau i ddal sefyllfaoedd penodol cynadledau i'r wasg o dan ddyletswydd y safonau.

Casgliad

70. O ganlyniad, mewn perthynas ag apêl yr Apelydd o dan adran 99(2) o'r Mesur, fe'i gwrthodir a chaiff dyfarniad yr Atebydd, bod Gweinidogion Cymru ddim wedi methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ei gadarnhau o dan adran 100(1)(a) o'r Mesur.

Rhodri Williams CF

Eifion Jones

Glenda Jones

25 Awst 2022

69. However, to the extent that the Respondent concludes that there is no doubt that the Welsh language has been treated less favourably than the English language at press conferences held by Welsh Ministers, and that Welsh language users have experienced a disadvantage by not receiving this information in accordance with their chosen language, the Tribunal agrees that this case highlights gaps and weaknesses in the standards in terms making specific press conferences duty-bound under the standards.

Conclusion

70. As a result, in relation to the Appellant's appeal under section 99(2) of the Measure, it is rejected and the determination of the Respondent, that the Welsh Ministers have not failed to comply with the Welsh Language Standards, is upheld under section 100(1)(a) of the Measure.

Rhodri Williams QC

Eifion Jones

Glenda Jones

25 August 2022